Sachareias: y ganrif gyntaf

Paratoi'r ffordd ar gyfer Iesu Grist

Ufudd-dod / gostyngeiddrwydd / dyfalbarhad

Cyn i Iesu Grist gael ei eni, aeth Mair ei fam i weld Elisabeth. Roedd hi hefyd yn disgwyl babi bach. Bu Mair yn aros efo hi am ychydig o amser. Mae'r stori hon yn sôn am Elisabeth a'i gŵr Sachareias. Offeiriad yn y deml oedd Sachareias.

Ble roedd Sachareias? Roedd Elisabeth, ei wraig, wedi bod yn y drws sawl tro. Ond doedd yna ddim golwg ohono. Bu'n gwylio'r plant yn chwarae ar y stryd.

"Mi fuaswn i wrth fy modd petawn i wedi cael plant," meddai wrthi'i hunan. Roedd hi a'i gŵr Sachareias wedi bod yn ddigon trist. Ond, yn awr, roedden nhw mewn gwth o oedran. Edrychodd drwy'r drws unwaith yn rhagor. Yn y pellter fe'i gwelai yn dod. "O'r diwedd," meddai. "Ble mae o wedi bod?"

Offeiriad yn y deml oedd Sachareias. Rhedodd i'w gyfarfod. "Lle'r wyt ti wedi bod? Rwyt ti'n hwyr iawn heddiw."

Ond doedd Sachareias ddim yn gallu dweud gair o'i ben. Brysiodd Sachareias i'r tŷ a dechreuodd ysgrifennu. "Elisabeth," ysgrifennodd, "fedra i ddim siarad. Pan oeddwn i yn y deml fe ddaeth angel Duw ataf. Fe ddywedodd wrthyf ein bod am gael babi bach. Wnes i mo'i gredu. Am hynny, fedra i ddim siarad nes bydd y babi bach wedi cael ei eni."

Doedd Elisabeth ddim yn gwybod beth i'w ddweud. Ond roedd hi'n credu yr hyn roedd yr angel wedi ei ddweud. Roedd hi, droeon, wedi gofyn i Dduw a fyddai hi'n cael babi bach. Yn awr, roedd Duw wedi ateb ei gweddïau.

Roedd yna waith mawr i'w wneud. Aeth i weld y saer. Gofynnodd i'r saer wneud crud i'r babi bach. Aeth i weld y wniadwraig. Gofynnodd iddi hi wnïo dillad i'r babi bach. Roedd pobl y pentref yn falch iawn o glywed y newydd da. Yr unig ateb oedd gan Elisabeth bob tro,

"Mae Duw wedi bod yn dda efo ni."

Daeth y diwrnod mawr. Rhoddodd Elisabeth enedigaeth i fachgen bach. Daeth pobl y pentref i'w weld ac i roi anrhegion iddo. Pan oedd y babi bach yn wythnos oed, cafwyd parti mawr yn nhŷ Elisabeth a

Sachareias. Daeth pawb yn y pentref i'r parti. Cafodd y bachgen bach lawer iawn o anrhegion. Holodd rhai o'r pentrefwyr,

"Ydych chi wedi meddwl am enw i'r bachgen?"

"Sachareias, wrth gwrs," meddai un arall o'r pentrefwyr.

Ond roedd yr angel wedi dweud wrth Sachareias beth fyddai enw'r bachgen.

Dywedodd Elisabeth wrth y bobl, "Ioan fydd ei enw, oherwydd dyna ddywedodd yr angel wrth Sachareias."

"Beth mae'r tad yn ei ddweud?" gofynnodd un arall o'r pentrefwyr.

Ysgrifennodd Sachareias, "Ioan fydd enw'r bachgen bach."

Yna'n sydyn dechreuodd Sachareias siarad unwaith eto. Dechreuodd siarad efo'r pentrefwyr. Dywedodd mor dda oedd Duw wedi bod wrth ei wraig ac ef. Roedd pawb yn hapus iawn. Ond roedd gan Sachareias rywbeth arall i'w ddweud wrthyn nhw.

"Mae'r angel wedi dweud y bydd y babi yma'n dod yn ddyn pwysig iawn ar ôl iddo dyfu. Mae Duw wedi ei ddewis i wneud popeth yn barod ar gyfer Mab Duw. Bydd Ioan yn sôn wrth y bobl am Fab Duw. Bydd yn dysgu'r bobl sut i fyw yn dda."

Roedd y bobl i gyd wedi rhyfeddu. Roedd Elisabeth a Sachareias yn hapus iawn.

"Paid ag ofni, Sachareias...bydd dy wraig Elisabeth yn esgor ar fab i ti, a gelwi ef yn Ioan."

Luc 1:13

Diolch i ti, O Dduw,
am Ioan Fedyddiwr.
Ef oedd yn paratoi'r ffordd
ar gyfer Iesu Grist.
Amen.

Ydych chi'n meddwl fod Elisabeth a Sachareias yn hapus gyda'r newydd?